

Wrth fyfyrrio ar y profiad, yr unig beth a'm blinai oedd a wnawn i lwfrhau o gwbl wrth draethu fy mhrofiad... [N]id yw'r gweledigaethau hyn yn glod i neb yn yr oes amheugar hon, a byddwn gallach a sicrach o'm henw da pe tawn â sôn amdanynt.

Oysgrif ysgytwol 'Grwyne Fechan' yr Athro TJ Morgan y daw'r geiriau hyn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1945. Heddiw, ni allwn ond diolch i'r nefoedd am y plwc o wroldeb a barodd i'r ieithydd hwn droi'r teimladau dwys a 'chyfriniol' a gafodd ychydig fisoedd cyn yr Ail Ryfel Byd wrth recordio'r 'olaf rhai o siaradwyr yr iaith Gymraeg' yng nghyffiniau Crucywel yn destun llenyddol cofiadwy. Cystal i minnau gyfaddef ar y dechrau fel hyn mai'r rhain yw'r geiriau yr uniaethaf â hwy fwyaf ar hyn o bryd.

Ond nid rhyw brofiadau cyfriniol neu weledigaethau ingol sydd ar unrhyw gyfrif wrth wraidd fy mhetruster chwaith – yn hytrach, y gybolfa argraffiadol sy'n dilyn, a'r siarad-ar-fy-nghyfer, sy'n debygol o beryglu unrhyw hygrdedd a fu gennyf cyn hyn. Wedi'r cyfan, dehongli tystiolaeth a data'n wrthrychol-beiriannol sy'n ddisgwyliedig gan bob tafodieithegydd gwerth ei halen. Ond onid oes gan bawb weithiau hawl i fwrw ei fol ar bapur er mwyn rhannu ei feddyliau a'i amheuron?

Elaine Forde

'One Wales, one model?
Complicating ways of
knowing Wales'
SOCIAL ANTHROPOLOGIES
OF THE WELSH:
PAST AND PRESENT
(W JOHN MORGAN,
FIONA BOWIE, GOLN)
Sean Kingston Publishing, 2021

Daniel John Evans

'Welshness in "British Wales":
negotiating national identity
at the margins'
NATIONS AND NATIONALISM 25 (1)
Wiley-Blackwell, 2019

T J Morgan


TRWM AC YSGAFN
Llyfrau'r Castell, 1945

Man cychwyn fy myfyrdodau (os nad mwydriadau) yw Model Tair-Cymru (*Three-Wales Model*) Denis Balsom a ddisgrifiwyd yn wreiddiol ar ddechrau'r 1980au. Yn syml, yr hyn a wna'r model cyfarwydd hwn yw rhannu Cymru yn dair tiriogaeth hunaniaethol wahanol, sef 'Y Fro Gymraeg' (y gogledd-orllewin a'r de-orllewin, ac eithrio de sir Benfro), *Welsh Wales* (i bob pwrpas y cymoedd lle y ceir 'a Welsh identifying, non-Welsh speaking group') a *British Wales* (sef gweddill Cymru i gyd). Mae ymgais o'r fath i rannu Cymru – yn weledol ar fap fel petai – yn rhwym o esgor ar deimladau cymysg, yn enwedig efallai ymysg datganolwyr a chenedlaetholwyr cyfoes sy'n arddel diffiniadau mwy 'sifig' o Gymreictod.

Ond cyn diystyru dilysrwydd model Balsom yn syth, mae'n werth pwysleisio

Hunanieithoedd Cymru heddiw

Iwan Wyn Rees



dau beth. Yn gyntaf, fe dâl inni gofio mai er mwyn ceisio esbonio patrymau pleidleisio amrywiol y'i datblygwyd yn wreiddiol gan ddangos fod ffactorau ar wahân i raniadau dosbarth ar waith yng Nghymru (yn wahanol i Loegr neu weddill Prydain). Yng ngoleuni hyn, digon eironig yw'r ffaith fod diben gwleidyddol gwreiddiol y model i'w weld yn mynd yn angof weithiau, a bod defnydd sawl un ohono yn tueddu i roi'r argraff mai arf ar gyfer tynnu cymariaethau diwylliannol yn unig ydyw.

Yr ail bwynt sylfaenol yw bod hirhoedledd y mynych gyfeiriadau (academaidd a phoblogaidd) at Fodel Tair-Cymru yn brawf digamsyniol o'i ddylanwad aruthrol a pharhaus. Yn wir, er gwaetha'r diffygion methodolegol y bu Roger Scully a Richard Wyn Jones yn llawdrwm arnynt yn 2012 ac a arweiniodd at y casgliad nad yw model Balsom yn ddibynadwy at y pwrpas y'i bwriadwyd, rhaid oedd iddynt hwy, hyd yn oed, gydnabod bod tra-arglwyddiaeth y cyfryw fodel yn ymgynraedd tuag at yr hyn a alwyd ganddynt yn 'uniongrededd'. Tra eironig yn y cyswllt hwn yw'r ffaith na ddisgwyliai Balsom ei hun i'w fodel aros yn berthnasol am yn hir – 'The prognosis for the durability of the three-Wales model

is [...] bleak, but Wales will survive' oedd ei ragfynegiad cyfeiliornus-ogleisiol yn 1985, er enghraifft.

Pam felly y llyncir y model gan gynifer sy'n ymddiddori mewn hunaniaethau Cymreig – neu raddfeydd o Gymreictod, hyd yn oed? Ai synied yn reddfod am raniad triphlyg y mae'r sawl sy'n gyfarwydd â Chymru, ynteu ai'r model ei hun sydd wedi argyhoeddi pobl fod cyffredinoliad ar fap yn ddrych cywirach o raniadau ar lawr gwlad nag unrhyw rethreg wleidyddol am Gymru unffurf, unedig?

**Cystal i minnau
gyfaddef mai
rhain yw'r geiriau
yr uniaethaf â
hwy fwyaf ar
hyn o bryd**

Cyn mentro i ddyfroedd dyfnach a chyflwyno safbwynt 'tafodieithogol' ar Fodel Tair-Cymru, mae'n werth ymdrin yn gryno â dwy astudiaeth academaidd ddiweddar sy'n herio ond eto wedi eu hysbrydoli gan y model hwn.

Astudiaeth ethnograffig anthropolegol ei natur yw'r ymateb diweddaraf i'r model, sef 'One Wales, one model? Complicating ways of knowing Wales' gan Elaine Forde (2021). Sail yr ymchwil yw cyfnodau estynedig o waith maes 'in West Wales' ymysg cynnyrch yr hyn a eilw yn 'green lifestyle migration'. 'Clearly defined social worlds prevail in rural West Wales' yw'r ddatllyd sy'n crynhoi ei chanfyddiad sylfaenol. Honnir, felly, mai 'Cymru Cymraeg [sic], literally, "Wales Welsh"' yw'r naill fyd cymdeithasol (nid yn annisgwyl, efallai); ar y llaw arall, byd y 'welsh' (ag 'w' fach) sy'n cydfodoli â'r Gymru Gymraeg yn y gorllewin gwledig. 'I have appropriated the word "welsh" in deference to the origin of the names "Wales" and "Welsh" deriving from the Saxon word for "foreigner" medd y cyfiawnhad a gododd fy aeliau am ennyd. Ond a bod yn deg, ceir disgrifiad digon clir o'r 'welsh' sydd dan sylw ganddi: pobl a ned ac sy'n byw yn 'Y Fro Gymraeg' nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn Gymry ethnig 'after several generations of migration and settlement' ac nad ydynt chwaith yn 'preferentially Welsh-speaking'. Awgrymir, yn gam neu'n gymwys, fod golygon y 'welsh' hyn yn ehangach na rhwydweithiau'r garfan frodorol:

Such people were part of a wider and non-place-specific alternative network. This fluidity and non-specificity of place sits at odds with rural Welsh conceptions of personhood rooted in the landscape.

Ond er gwaethaf eangfrydedd honedig y bydolwg hwn, dadleuir yn ddigon argyhoeddiadol fod y term 'welsh' yn fwy addas ar gyfer y grŵp dan sylw nag 'incomers' (hyd yn oed os mai fel 'mewn-fudwyr' y'u hystyrir gan y gymuned Gymraeg leol), nid yn unig gan mai de-orllewin Cymru a ystyrir yn unig 'gartref' ganddynt ond hefyd oherwydd eu bod wedi datblygu hunaniaeth 'welsh'.

Ymddengys hyd yma felly fel petai Forde yn awgrymu bod angen i fodel Balsom gydnabod pedair prif hunaniaeth yn hytrach na thair. Mae'n amwys er hynny pa mor wahanol fyddai Gymreictod *British Wales* i eiddo'r hunaniaeth 'welsh' hon. Nid yw'r dadleuon bod 'welsh' yn 'spatially located within *Y Fro Gymraeg*' a bod 'members (by my reckoning) of this category may in fact be Welsh-speakers' yn argyhoeddi'n llwyr. Gwerth nodi bod Balsom ei hun yn cydnabod bodolaeth grŵp 'maverick', sef y 'British identifying Welsh speakers' – ac onid yw'r rhain yn ddigon cyffredin heddiw ymhlith disgyblion a rhieni ysgolion cyfrwng Cymraeg Caerdydd a Bro Morgannwg, dyweder?

Ond arhoser am y tro yng nghynffon y dadansoddiad hwn. Yr hyn a ddadleua Forde cyn cloi yw bod datganoli wedi gweddnewid y sefyllfa yng Nghymru mewn modd sylfaenol: '[...] the Welsh >

▷ language is becoming decoupled from Welsh cultural identity, insofar as it is viewed as a technical skill that anybody, from any cultural background, can acquire'. Awgrymir ymhellach mai diffyg amrywiaeth hunaniaethol a nodweddiad siaradwyr Cymraeg cyn dyfodiad datganoli i Gymru: 'Prior to devolution, it might have been inconceivable that speakers of the Welsh language could exist separately to some innate and "genuine" Welshness.' Mewn gwirionedd, hypothesis ar sail anwybodaeth yw hwn ac, yn ddiarwybod i Forde fe dybiwn, fe'i chwelir yn llwyr yng nghampwaith diweddar Simon Brooks, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg* (2021), a'r holl gyfoeth o dystiolaeth bwysig a geir ynddo o'r 'archif Gymraeg' (gweler adolygiad Gwennan Higham yn rhifyn Gaeaf 2021 *O'r Pedwar Gwynt* am fraslun dibynadwy o'i ragoriaethau).

Byrdwn sylwadau clo Forde yw bod Model Tair-Cymru yn ddianghenraid bellach yn y Gymru ddatganoledig ac y gwnâi un model, neu fodolau 'un Gymru', y tro yn iawn. Dadleuir ymhellach fod anallu i ffitio diwylliant gwledig de-orllewin Cymru o fewn model Balsom yn herio'r safbwynt 'that language is the critical variable defining the intensity of ethnic identity'. Onid simsan braidd yw'r ymresymu yma o ystyried mai meini prawf 'ieithyddol' – hynny yw, y gallu i siarad Cymraeg (hyd yn oed os nad arddelir yr iaith) a'r gofyniad i fyw yn 'Y Fro Gymraeg' – sy'n caniatáu i'r ymchwilydd wahaniaethu rhwng y 'welsh' a grwpiau eraill? Yn wir, gellir awgrymu mai diffiniad cul o 'language' yw un o broblemau'r dehongliad hwn: 'gallu' a 'sgil' yw'r cyfan ydyw i Forde; ymddengys nad yw natur hynod amrywiol y 'defnydd' o'r Gymraeg (ar lefelau cymunedol ac unigolyddol) a chydberthynas hynny â hunaniaethau drwy Gymru benbaladr yn ystyriaeth ganddi.


Yr ail astudiaeth ddiweddar y mae'n werth ei chrybwyll yw 'Welshness in "British Wales": negotiating national identity at the margins' gan y cymdeithasegydd Daniel John Evans (2019). Yn debyg i ymchwiliad Forde, mae canfyddiadau Evans hefyd wedi eu seilio ar gyfnodau o arsylwi ethnograffig yn y

maes, ond fel yr awgryma'r teitl, archwilio'r modd y caiff straeniau 'gwannach' o genedligrwydd Cymreig eu hamlygu mewn rhan o *British Wales* Balsom, sef Porthcawl, yw amcan yr astudiaeth hon.

Un o ganfyddiadau trawiadol Evans yw ei bod yn gyffredin i rai sy'n byw yn *British Wales* heddiw ymfalchïo mewn hunaniaeth Gymreig gref ond bod tueddiad amlwg ganddynt, er hynny, i brofi anhawster wrth leoli eu hunain o fewn y genedl. Dadleuir eu bod wedi 'mewnoli' eu safle isel o fewn yr hierarchaeth genedlaethol. Cryfder diamheuol yr ymdriniaeth hon yw'r modd y defnyddir tystiolaeth ansoddol helaeth, hynny yw, dyfyniadau o gyfweiliadau,

y Gymru 'Brydeinig' honedig. Tra phriodol felly yw beirniadaeth Evans o'r categorïau unweddol sydd mor amlwg ym Model Tair-Cymru ('Welsh' am y pegwn â 'British', er enghraifft); deillio o ddewisiadau anhyblyg Holiadur Etholiadol Cymru 1979 y mae'r diffyg hwn mewn gwirionedd. Go brin felly y gellir anghytuno â'r canlynol ganddo:

the plurality of identities within the regions are obscured, for example the prevalence of British identifiers in Y F[r]o G[y]mraeg and Welsh Wales and the prevalence of Welsh speakers within British Wales; the significant political conservatism within YFG and the Labourist tradition within British



O'r gyfres Grwyne Fechan gan Livi Mills

i ddilysu'r canfyddiadau hyn; mae'r cymariaethau rhwng hunaniaeth amwys 'y cyrion' a Chymreictod dosbarth gweithiol ystrydebol y cymoedd neu Gymreictod Cymraeg y gorllewin (a nodweddir gan losgwyr tai haf gan ambell un!) yn dwyn i gof Fodel Tair-Cymru Balsom yn glir. Awgryma hynny'n gryf i mi nad yw perthnasedd y model hwn wedi chwythu ei blw yn llwyr eto, o leiaf cyhyd ag yr ystyrir ymagweddau ar lawr gwlad (safbwyntiau 'oddi isod' megis).

Ond dylid gochel rhag rhoi'r argraff mai profi dilysrwydd model Balsom yw cenadwri Evans. I'r gwrthwyneb, mae'r modd y datgelir bod uniaethu â Chymreictod yn gyffredin 'ar y cyrion' yn amlwg yn codi cwestiynau pwysig ynghylch addasrwydd *British Wales* fel term. Diddorol nodi yn y cyswllt hwn i Balsom ei hun ddangos yn 1985 fod canran uwch o drigolion ei *British Wales* ef, sef 50.5% ohonynt, yn uniaethu fel Cymry, o'u cymharu â'r lleiafrif o 43% a uniaethai â Phrydeindod o fewn y diriogaeth. Dengys hyn yn glir felly nad ffenomen ôl-ddatganoledig ddiweddar yw Cymreictod

Wales; the presence of middle class enclaves within Welsh Wales, the presence of working class enclaves within British Wales, and so on.

Gofynnir cwestiwn teg gan Evans hefyd, sef beth sydd gan ardaloedd niferus *British Wales*, sy'n cwmpasu trefi dosbarth gweithiol fel Wrecsam a Chasnewydd ynghyd ag ardaloedd gwledig mwy cefnog fel Bro Morgannwg a Maldwyn, yn gyffredin â'i gilydd? Ymddengys mai anallu i'w gosod o fewn tiriogaethau Cymreig clasurol 'Y Fro Gymraeg' neu *Welsh Wales* yw'r ateb rhesymegol, ond go brin fod hyn yn ein darbwyllo fod unrhyw unoliaeth gynhenid i'r diriogaeth hon.

Ond paradox yr astudiaeth hon yw bod pobl ar lawr gwlad (ym Mhorthcawl, o leiaf) fel pe baent yn edrych ar Gymru drwy lens Model Tair-Cymru Balsom er gwaetha'r termau amheus a'r diffygion methodolegol. Diau y gallai'r snob o academydd neu'r gwas sifil diwyro ei ymrwymiad i Gymreictod 'sifig' unffurf ddiystyru arwyddocâd hyn a barnu bod modd i fodel academiaidd a'r werin fod yr

un mor gyfeiliornus â'i gilydd yn eu hystrydebau. Ond tybed nad oes rhagor na hyn ar waith ac mai pwysleisio'r angen i ddiwygio a mireinio model Balsom (yn sylweddol, efallai) yn hytrach na'i fwrw i ebargofiant y mae'r gyfatebiaeth ryfeddol hon mewn gwirionedd?

Daw'r cwestiwn diwethaf â mi at dystyriaeth arall y bwm yn cnoi cil drosti'n ddiweddar, sef a oes cydberthynas rhwng y gwahanol hunaniaethau cenedlaethol a amlygir gan fodel Balsom a dosbarthiad daearyddol tafodieithoedd Cymru, boent Gymraeg neu Saesneg? (Dylwn egluro bod 'acen' yn elfen o 'dafodiaith' i'r ieithydd.) Yn wir, mae'n syndod cyn lleied o sylw manwl a gafodd y cwestiwn hwn gan (socio)ieithyddion er mor naturiol ydyw ar ryw ystyr.

Mae'n amlwg i'r sawl sy'n medru'r Gymraeg nad oes unffurfiaeth dafodieithol o fewn tri rhanbarth model Balsom. Cymerer 'Y Fro Gymraeg', er enghraifft: gellir datgan yn hyderus bod mwy'n gyffredin o safbwynt geirfa, cystrawen ac acen rhwng, dyweder, Gymraeg sir Fôn a thafodieithoedd traddodiadol y gogledd-ddwyrain – er enghraifft rhai Dyffryn Clwyd a Rhosllannerchrugog (yn *British Wales*) – nag unrhyw ardal o'r de-orllewin. Mae'n amlwg felly nad yw'n ystyrlon synied am raniadau Model Tair-Cymru fel ardaloedd tafodieithol fel y cyfryw.

Ond beth am inni ystyried teipiau o dafodieithoedd yn hytrach na chymharu nodweddiad amrywiadau unigol? Yn sicr, mae tuedd i gysylltu tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg (neu eu goroesiad o leiaf) ag ardaloedd yn 'Y Fro Gymraeg' yn unig, ond fel yr awgrymau yn y gymhariaeth ddiwethaf, mae cymunedau Cymraeg hyfyw megis rhannau o Ddyffryn Clwyd a Bro Ddyfi i'w cael o hyd yn *British Wales*. (Gellid hefyd ystyried ambell ynys fach Gymraeg yn *Welsh Wales* megis ardaloedd o Gwm Tawe, er gwaetha'r ffaith fod sawl astudiaeth dafodieithogol yn dangos bod twf addysg Gymraeg yma yn cyd-ddigwydd â diffyg trosglwyddiad yr iaith a difflaniad graddol elfennau nodweddiadol o'r dafodiaith leol; ond nid annhebyg efallai yw sefyllfa ardaloedd cyffiniol 'Y Fro Gymraeg' bellach.)

At ei gilydd, felly, gellir casglu bod tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg i raddau helaeth yn gyfystyr â chymunedau Cymraeg. (Gadawaf i ddaeryddwyr ddadlau ymysg ei gilydd beth yn union yw ystyr 'cymunedau' yn yr oes sydd ohoni a beth fyddai'r meini prawf mewn achosion ymylol.) Er bod llawer o'r rhain i'w cael yn nhiriogaeth 'Y Fro Gymraeg' glasurol, mae'n bwysig cydnabod bod tafodieithoedd traddodiadol yn dal eu tir ymhlith cenedlaethau iau (fel y rhai hyn) mewn sawl 'cymuned' Gymraeg y tu hwnt i'r rhanbarth hwn (yn eironig ddigon, mewn rhannau o *British Wales* yn amlach na heb).

Dim ond manylion tafodieithol sydd yma, cofier; mater i wleidyddion a llunwyr polisi (gan gynnwys creawdw(y)r 'Arfor') yw ystyried beth fyddai arwyddocâd neu fanteision posib cydnabod ardaloedd y tafodieithoedd Cymraeg traddodiadol fel un uned. A fyddai modd goresgyn heriau ymarferol anochel gwleidyddiaeth leol er

Mae ymgais o'r fath i rannu Cymru – yn weledol ar fap fel petai – yn rhwym o esgor ar deimladau cymysg, yn enwedig ymysg datganolwyr a chenedlaetholwyr

mwyn ymestyn 'Y Fro Gymraeg' y tu hwnt i'r diriogaeth ddi-dor gyfarwydd er mwyn cwmpasu holl 'gymunedau' Cymraeg Cymru?

Beth am *Welsh Wales* nesaf? Talp helaeth o diriogaeth y Wenhwyseg sydd yma mewn gwirionedd – a gynhwysai Gwm Tawe i Iolo Morgannwg – ac eithrio ardaloedd mwy deheuol megis Caerdydd a Bro Morgannwg. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae bodolaeth amrywiadau lu ar y dafodiaith hanesyddol bwysig hon o fewn cof (neu'n realiti) i gannoedd o drigolion *Welsh Wales* hyd heddiw, er mai priodoli'r rhanbarth hwn i'r 'non-Welsh speaking group' y mae Balsom. Gwerth crybwyll yma hefyd fod dylanwad y Wenhwyseg i'w weld o hyd ar Gymraeg y Wladfa o safbwynt geirfa ac acen, sy'n dyst o'i rôl (anghofiedig braidd) fel cynhwysyn pwysig yn ffurfiant yr unig dafodiaith wladychol sydd gan y Gymraeg.

Y cwestiwn sy'n codi i'r tafodieithogydd heddiw yw faint o effaith y mae'r Wenhwyseg wedi ei chael ar dafodieithoedd Saesneg cyfoes *Welsh Wales*, yn ogystal ag amrywiadau Cymraeg newydd. Cyn cynnig ateb, mae'n werth ystyried un dehongliad lliwgar sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 20g: '[...] the linguist finds no difficulty in recognising, in an English guise, the sounds which struck terror into the hearts of the Roman soldiers, when for years they sought a place in the land of the Silures to plant their eagles'.

O lyfryn bychan â chlamp o enw arno, sef *Y Wenhwyseg: A key to the phonology of the Gwentian dialect: For the use of teachers of Welsh in Glamorgan and Monmouth schools* (1902), y daw'r dyfyniad, a John Griffith biau'r geiriau (gŵr o Geredigion yn wreiddiol a oedd, fel mae'n digwydd, yn berthynas i Syr John Rhŷs, Athro Celteg cyntaf Rhydychen). Teg dweud nad oes unrhyw gyfrol Gymraeg (hyd y gwn) yn debyg o ran ei diben arloesol, sef darparu canllawiau i athrawon i'w helpu i egluro gwahaniaethau rhwng patrymau llafar (y Wenhwyseg yn yr achos hwn) a Chymraeg llenyddol.

Er i Griffith fod yn or-obeithiol ynghylch dyfodol y Wenhwyseg o ran ei gallu i gael Cymry o bob cwr o'r wlad i'w siarad i'r oesoedd a ddél, mentraf ddweud ar sail y dyfyniad uchod (gan gymryd y manylion hanesyddol â phinsied o halen) ei fod yn llygad ei le wrth sôn am ddylanwad seiniau y dafodiaith hon ar amrywiadau Saesneg *Welsh Wales*. Yn wir, mae gwaith manwl ieithyddion yn dystiolaeth gadarn o effaith sylweddol y Gymraeg ar acenion Saesneg y cymoedd. Dangosodd J Roderick Walters (2001), er enghraifft, fel yr âi'r dylanwad hwn y tu hwnt i seiniau unigol: '[...] the strongest and most enduring Welsh language influence on the accent is found in its prosodics – its rhythm, the way that stress is realized and intonation'. Yn yr un modd, nid oes raid inni bori'n hir mewn llyfr poblogaidd megis *Wenglish: The dialect of the South Wales Valleys* (2008) gan Robert Lewis cyn cael cadarnhad o'r dylanwad aruthrol a gafodd y Wenhwyseg ar eirfa a chystrawennau tafodieithoedd Saesneg y rhanbarth hwn hefyd.

Mewn termau mwy technegol, mae modd dweud bod y Gymraeg yn iaith swbstrad (*substrate language*) yn y rhan fwyaf o *Welsh Wales*, sef iaith sydd wedi effeithio'n sylfaenol ar ffurfiant a datblygiad Saesneg yr ardaloedd hyn wrth i shifft iaith cyflym ddigwydd yno o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae'r Gymraeg felly – a chan hynny, y Wenhwyseg hithau – ymhell o fod yn amherthnasol i batrymau llafar bob-dydd y cymoedd heddiw. Yn wir, gellid synied am Saesneg y cymoedd fel cynnyrch yr arwyneb; ond nid oes raid tyrchu'n ddwfn cyn sylwi ar haenau ar ben haenau o Gymraeg sy'n sylfaen i'r cyfan. Dyna pam, yn ôl tiwtoriaid iaith profiadol, y daw elfennau o'r Gymraeg yn rhwydd i ddysgwyr y cymoedd – mae'r

Saesneg un rhanbarth o Gymru. Ymwneud ag elfen hunaniaethol y mae 'Cymreig' wedi'r cyfan, felly gellid dadlau bod modd i bob un o acenion Cymru fod yn 'Gymreig', waeth beth fo'u datblygiadau ieithyddol. Beth felly am 'Saesneg Cymraeg'? Hyd y gwelaf, byddai hyn yn rhagori ar 'Welsh English' drwy amlygu gwreiddiau Cymraeg amrywiadau Saesneg miloedd o bobl yn y de ôl-ddiwydiannol. Ond beth wedyn am *Welsh Wales* Balsom? Yr un anfantais sydd i 'Gymru Gymreig', ond byddai 'Cymru Gymraeg' yn gamarweiniol hefyd. Gellid awgrymu'n gellweirus felly fod 'Cymru gymraeg' (ar ddelw'r 'welsh' a welwyd eisoes gan Elaine Forde), neu 'Fro cymraec-tod' hyd yn oed, yn opsiynau dichonol eraill. Byddai'r 'c' neu 'g' fach yn



O'r gyfres Grwyne Fechan gan Livi Mills

Mae'n amlwg i'r sawl sy'n medru'r Gymraeg nad oes unffurfiaeth dafodieithol o fewn tri rhanbarth model Balsom

systemau crai yno'n barod, ond yn aml wedi eu gwastraffu'n flaenorol gan addysg ddi-Gymraeg yn achos nifer o oedolion. Rhyfeddod arall adfywiad y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn yw'r modd y mae rhai elfennau o'r Wenhwyseg, sydd wedi goroesi'n lleol yn y Saesneg, yn dychwelyd i amrywiadau newydd ar y Gymraeg, er enghraifft 'Ricos', 'Pentra' a 'Gelli-gær' (er bod rhai addysgwyr anwybodus yn euog o 'gywiro' ambell ffurf fel y ddiwethaf i 'Gelli-gaer' yn ôl pob tebyg!).

Er mor atgas gennyf yw'r term 'Welsh English', sydd fel rheol yn cyfeirio at Saesneg y cymoedd, ond sy'n aml â naws drefedigaethol iddo wrth i'r ystrydeb gael ei hymestyn i gynrychioli Cymru gyfan (hyd yn oed ymhlith ieithyddion angloffon eu gogwydd, ysywaeth), mae'n werth gofyn er hynny beth fyddai'r cyfieithiad Cymraeg ar ei gyfer? Diau mai 'Saesneg Cymreig' fyddai fwyaf disgwylidig, ond annigonol fyddai'r cynnig hwn ar gyfer

ddrych o statws isorweddol presennol y Gymraeg yng nghymunedau'r rhanbarth 'cymreigaidd' hwn o Gymru. Teg gofyn yn y cyswllt hwn a ddylid ystyried y tueddiad cryf i ddilorni a gwatwar acen ystrydebol y cymoedd hefyd yn ymosodiad anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg ei hun?

Beth am natur tafodieithoedd *British Wales* Balsom? Yn gyntaf, diddorol nodi fod yr ieithydd Gwenllian Awbery (1997) yn rhannu'r rhan fwyaf o'r diriogaeth hon yn ddwy ran (er nad yw'n crybwyll Model Tair-Cymru o gwbl), sef 'Longstanding English areas' (er enghraifft de sir Benfro a Phenrhyn Gŵyr) a 'The Conurbations' (lle yr ystyrir clwstwr y de-ddwyrain a chlwstwr y gogledd-ddwyrain, gyda Lerpwl yn ganolbwyt i'r olaf, ar wahân i'w gilydd). Er gwaetha'r rhaniadau, yr hyn sy'n gyffredin am amrywiadau Saesneg yr holl ardaloedd hyn, fe ymddengys, yw dylanwad cyfyngedig – neu ddiffyg dylanwad – y Gymraeg (yn gwbl groes i sefyllfa *Welsh Wales*, mewn gwirionedd).

Wedi dweud hyn, hyd yn oed os nad yw'r Gymraeg yn iaith swbstrad amlwg yn yr ardaloedd hyn, byddai'n anodd gennyf gredu nad oedd rhai o nodweddion siaradwyr Cymraeg, neu o leiaf nodweddion Cymreigaidd *Welsh Wales*, yn elfen o'r gymysgedd aml-ddiwylliannol a brofwyd mewn ardaloedd fel Caerdydd a'r Barri. Mae'n debygol, er enghraifft, fod patrymau cystrawennol fel 'where to you going', yn deillio o gystrawen y Gymraeg.

Beth bynnag am hynny, o safbwynt y Gymraeg yn *British Wales* (ac eithrio'r cymunedau Cymraeg gwledig a nodais yn

gynharach), y peth pwysicaf i'w nodi yw bod tafodieithoedd Cymraeg newydd yn ymffurfio o ganlyniad i dwf ysgolion Cymraeg. Gan fod cyfran uwch o ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg na rhai Cymraeg yn yr ysgolion hyn fel rheol, mae'n naturiol i siaradwyr ail iaith chwarae rôl allweddol yn ffurfiant y tafodieithoedd hyn. Mewn ardal fel Caerdydd, golyga hyn fod modd i Saesneg y ddinas ddylanwadu'n fawr ar iaith siaradwyr iaith gyntaf hefyd, a dangosir hyn yn glir mewn astudiaeth ddoethurol sydd newydd ei chwblhau gan Ianto Gruffydd ar Gymraeg Caerdydd. Mae peth tystiolaeth anecdotaidd hefyd o fodolaeth disgyblion dwy-dafodieithog ymhlith y rhai sy'n siarad Cymraeg gartref, ffaith sy'n awgrymu bod perthynas symbiotig rhwng y tafodieithoedd traddodiadol a'r amrywiadau newydd hyn, ond nid yw'r ffenomen hon wedi ei hymchwilio'n fanwl hyd yma.

Yn olaf, dylid ystyried y posibilrwydd fod ambell ardal o fewn 'Y Fro Gymraeg' draddodiadol bellach yn debycach yn dafodieithol i gymunedau dinesig fel Caerdydd yn y Gymru 'Brydeinig' nag ardaloedd y tafodieithoedd traddodiadol. Dangosodd traethawd ymchwil diweddar gan Elain Fflur Jones, er enghraifft, fod cryn wahaniaeth rhwng amrywiadau tafodieithol y ddwy ysgol uwchradd a geir yn nhref goshopolitaidd Aberystwyth a'r hyn a geid yn nhafodiaith draddodiadol y rhan hon o Geredigion. Yn wir, nid yw'n amhosib fod arwyddocâd tafodieithogol i'r ffin wleidyddol-ddiwylliannol a ddiffinnir gan Simon Brooks yn *Adra* (2018) rhwng y 'Geredigion' ryddfrydol a'r 'sir Aberteifi' fwy ceidwadol.

Aninnau wedi cael blas ar natur agyfoethog ond cymhleth ein tafodieithoedd Cymraeg a Saesneg a'r rhyngweithio sydd rhyngddynt, gallwn ystyried bod tair ffenomen ieithyddol amlwg sy'n berthnasol i'r Gymraeg, sef: 1. tafodieithoedd traddodiadol 'cymunedau' Cymraeg, 2. 'cymraec-tod', sef fy mathiad ar gyfer dylanwad isorweddol (neu swbstradol) y Gymraeg ar amrywiadau Saesneg y cymoedd, sy'n dylanwadu yn ei dro ar amrywiadau Cymraeg newydd; a 3. amrywiadau newydd ar y Gymraeg wedi eu dylanwadu gan amrywiadau Saesneg a oedd yn gyfyngedig eu cysylltiad â'r Gymraeg yn draddodiadol. Gan ei bod yn amlwg ddigon fod y ffenomenau hyn yn cyd-fynd yn fras â rhaniadau triphlyg Balsom (er bod rhai eithriadau pwysig), awgrymir yn gryf yma y gallai fod perthynas glòs rhwng tafodieithoedd (a chan hynny acenion) a hunaniaethau gwahanol yng Nghymru. Byddwn yn amheus iawn, felly, o ddadleuon a awgrymai fod y Gymraeg yn hanfod i unrhyw 'hunaniaeth Gymreig', o ran hynny; ymddengys yn hytrach mai gallu'r Gymraeg i gofleidio amrywiaeth o hunaniaethau (ddoe a heddiw) yw'r allwedd i'w goroesiad.

Wrth imi fod wrthi'n ysgrifennu, mae storm fawr yn rhuo ar y cyfryngau cymdeithasol (ymhlith y Twitterati, o leiaf) yn dilyn darllediad o 'The Union: Being Welsh', yr ail raglen mewn cyfres o dair ar BBC Radio 4. Yn ddiddorol ddigon, ▶

ymatebion tanllyd i berthnasedd 'Model Tair-Cymru' heddiw sydd ar waith (er nad oes neb yn sôn am hynny) wedi i'r cyflwynydd profiadol Jeremy Bowen fynegi ei bryderon fod perygl i bolisi iaith Llywodraeth Cymru ddibrisio ei hunaniaeth Gymreig fel rhywun di-Gymraeg a faged yng Nghaerdydd. Mae'n hynod drawiadol pa mor gyson â'i gilydd a niferus yw'r feirniadaeth o bryderon Bowen, gan gynnwys y canlynol gan ei gydweithiwr o Gymro, Huw Edwards: 'We are all products of upbringing – this take is 1970s Cardiff. So stop speaking Welsh to make him feel better?' Ystyried ei safbwynt fel un wedi dyddio a wna'r gwleidydd Delyth Jewell o Blaid Cymru hefyd: 'This attitude reflects a divisive past, whereas modern Wales is a confident, bilingual nation [...]; tra bo ymateb Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg – 'Cymraeg belongs to us all, whether we can say just a few words, whether we can speak a lot, or not!' – ar yr un donfedd â rhaglen lywodraethu ddiweddar y llywodraeth sy'n nodi bod y Gymraeg 'yn drysor cenedlaethol sy'n perthyn i bob unigolyn yng Nghymru'.

Ymddengys felly fel petai gagendor yn tyfu rhwng y Sefydliad Gymreig ar y naill law a'i ddelfrydau o *One Wales* unedig lle mae 'unigolion' yn siarad Cymraeg ym mhob cwr o'r wlad, a Chymry cyffredin ar lawr gwlad ar y llaw arall sy'n synied

yn reddfola hierarchaeth o hunaniaethau Gymreig. Ond tybed ai arddel model 'un Gymru' ('oddi uchod', fel petai) yw'r ffordd orau o ddileu rhaniadau a hyrwyddo'r Gymraeg? Oni fyddai modd dileu unrhyw hierarchaeth o Gymreictod drwy fframio realiti gwahaniaethau ieithyddol (megis y tair ffenomen a amlinellais uchod) yn

Mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, sydd wedi ei lansio bellach, yn cynnig cyfleoedd cyffrous o safbwynt dathlu amrywiaeth ieithyddol a threftadaeth dafodieithol unigryw Cymru

nhermau amrywiaeth Gymreig a hunaniaethau cydradd yn hytrach na'u dehongli fel rhwygiadau dinistriol?

Yn y cyswllt hwn, mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, sydd wedi ei lansio bellach, yn cynnig cyfleoedd cyffrous o safbwynt dathlu amrywiaeth ieithyddol a threftadaeth dafodieithol unigryw Cymru. Er enghraifft, mae'r pwyslais a roddir ar 'feithrin ymdeimlad o hunaniaeth' (gan gynnwys hunaniaethau pobl eraill yng Nghymru), yn ogystal â'r egwyddor o '[g]lydnabod nad yw Cymru [...] yn unffurf', i'w gweld yn gwblgydnaws ag amrywiaeth y tair ffenomen dafodieithol a gyflwynais uchod. Yn yr un modd, gall annog disgyblion i ddadansoddi eu tafodiaith ('waeth pa mor ansafonol y bo), gan dynnu cymariaethau ag amrywiadau eraill ar y Gymraeg (gan gynnwys Cymraeg Safonol), fod yn fodd effeithiol o greu 'ymdeimlad o angerdd a balchder yn eu hunain' – heb sôn am gynyddu hyder a defnydd yn y Gymraeg yn unol ag ail nod strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru (yr un pwysicaf hyd y gwelaf). Er hynny, mae'r ffaith nad yw'r geiriau 'acenion' na 'thafodieithoedd' yn codi unwaith yn nogfennaeth bresennol y cwricwlwm newydd yn peri pryder braidd. Dim ond gobeithio felly y rhoddir sylw haeddiannol i'r rhain wrth droi rhai o egwyddorion craidd y cwricwlwm yn realiti ar lawr y ystafell ddsbarth.

I gloi, dychwelaf i'r 'Grwyne Fechan' ac at ddarlun digon digalon yr Athro T J Morgan. Meddir ar y diwedd:

Teimlais bang o dristwch o feddwl fy mod yn gweld megis mewn drych yr olaf rhai o siaradwyr yr iaith Gymraeg. Pa bryd y digwydd tranc yr iaith, ni allaf broffwydo, nac ymhle y digwydd; yng Ngheredigion efallai, neu yn Sir Fôn, yn yr unfed ganrif ar hugain efallai; yr ydwyf wedi gweld y peth yn barod yng Ngrwyne Fechan.

Fel un o Gwm Tawe'n wreiddiol, rwy'n siŵr y byddai twf addysg Gymraeg yn y de-ddwyrain yn destun calondid i'r Athro; ond rwy'n siŵr hefyd y byddai'n chwithig ganddo yng ngoleuni'r uchod fod y Llywodraeth y bu ei fab ei hun yn brif weinidog cyntaf arni yn araf iawn i gydnabod bodolaeth 'cymunedau' Cymraeg, heb sôn am eu diogelu. A defnyddio geiriau Simon Brooks, tra pery'r 'pwyslais unigolyddol ar siaradwr [i d]anseilio mewn oes neo-ryddfrydol y pwyslais ar y gymdeithas ieithyddol', ac os dilëir cymunedau Cymraeg o'r cydwybod wrth drawsnewid yr iaith yn ddim mwy na 'sgil dechnegol' yn unol â gwledigaeth Elaine Forde, bydd ofnau T J Morgan ynghylch tynged cymunedau Cymraeg a'u diwyllianau yn parhau'n berthnasol yn yr 21g. □

Pwy yw gwyr drwg y sidiydd? Ers tro, ystyriwyd presenoldeb cryf y planedau Mawrth a Phlwton mewn siart yn rhywbeth i fod yn wylidwrus ohono. I'r sêr-ddewin, cynrychiola Mawrth ewyllys uniongyrchol yr ego; a Phlwton ewyllys ddyfnach, ehangach a mwy anuniongyrchol, tu hwnt i'r unigolyn. Gwae chi os oes cysylltiad cryf yn eich siart rhwng y ddwy blaned hyn – arwydd pendant, meddan nhw, o natur greulon; ac felly hefyd os ydi planed Sadwrn yn cyfathrebu â hwy, yn arbennig mewn modd sgwarog (*square*) neu wrthsafol (*opposition*). O wrthsefyll egni ymosodol Mawrth a natur lem Sadwrn, sy'n dueddol o osod cyfyngiadau ar yr hyn mae'n ei gyffwrdd, mae'n anorfod bod tensiwn. Ond wrth gwrs, mae pawb â Mawrth, Plwton a Sadwrn yn rhywle yn eu siart, ac mae eu lleoliad yn un o'r deuddeg tŷ sy'n ffurfio horosgop yn gymorth i ddehongli ym mha feysydd y bydd y nodweddion sy'n gysylltiedig â'r planedau hyn yn cael eu mynegi gennym – ac ym mha le y dylsem ganolbwyntio ein sylw, er mwyn bod yn driw iddynt. Mae'n debyg mai camgymeriad fyddai eu gwadu.

Nid dim ond un ffordd sydd gan y blaned Mawrth o fynegi ei hun mewn horosgop. Fe'i cyflyrir gan ei harwydd sidiydd yn ein siart adeg ein geni, gan roi gwybodaeth ynghylch sut y datblygir ein natur gystadleuol, yr hyn sydd yn ein gwylltio ac yn ein cymell i weithredu. Os mai'r Cranc (*Cancer*) sy'n rheoli yna y tueddiad ydi gweithredu mewn ffordd anuniongyrchol, ac os mai'r Forwyn (*Virgo*) sydd wrth y llyw annhebyg y digwyddith dim yn ddigymell. Mi fydd y tŷ y mae

Y sêr yn eu graddau



planed Mawrth wedi ei lleoli ynddo wedyn yn dangos ym mha rannau o'n bywyd rydym yn buddsoddi ein hegni a'n brwdfrydedd, yn rhoi ein 'rhyfelgarwch' ar waith. O symleiddio, wedi ei lleoli yn y tŷ cyntaf, mi fydd natur 'ryfelgar' Mawrth ynghlwm â hunanddelwedd yr unigolyn mewn rhyw ffordd; yn yr ail, bydd yn ymwneud â hunan-werth ac arian; yn y trydydd, â chyfathrebu, ac ati.

Os hoffech ddarganfod ym mha dŷ y mae planed Mawrth wedi ei lleoli yn eich siart chithau, does ond angen chwilio ar y we ac mi gewch ddewis o wefannau sy'n cynnig llunio eich siart am ddim, mewn eiliad, dim ond i chi fod ag amser eich geni yn gywir i'r funud. Ac wedyn, mi fydd rhaid edrych pa blanedau eraill sy'n cyfathrebu

â'ch planed Mawrth, ac ym mha arwyddion y sidiydd y maent hwythau wedi eu lleoli bob un. Er enghraifft, ydi Mawrth yn arwydd yr Hwrdd – ei chartref naturiol – yn cysylltu â'r haul yn arwydd y Pysgodyn? Os hynny, mi fydd ei natur uniongyrchol, gystadleuol wedi ei drysu gan natur ddyfrllyd, neptiwnaidd y Pysgod. A beth am y berthynas rhwng yr elfennau hyn a Mercher (cyfathrebu) a Fenws (cariad, estheteg a chyfoeth)? Er bod modd diffinio'r blociau adeiladu, does dim, fel y gwelwn, yn gyfan gwbl syml ym mydolwg y sêr-ddewin. Hyd yn oed os ydi Mawrth yn fud yn ein horosgop, mi fydd yn gynhwysyn hanfodol. Ac onid ydi pob taith bywyd mewn mytholeg yn cynnwys brwydr yn erbyn rhyw elyn? Mae hyd yn oed yr hynaws Parsiffal yn opera Wagner o'r un enw yn gorfod ymladd.

Bu digon o sôn gan sêr-ddewin am y blaned 'goch' hon yn ddiweddar – ac ail-dyrchu yn siartiau awtocratiaid hefyd, mewn ymdrech i weld patrymau rhyngddynt a cheisio deall yr argyfwng cyfredol. Digon rhwydd ydi dod o hyd i siartiau drwg-enwogion ar y we, a Fladimir Pwtin yn eu plith. Mae'n demtasiwn gweld patrymau yn ôl-syllol. Ond y tebyg ydi na fyddai Pwtin fyth wedi bod mor ddwl â rhannu union amser ei eni â neb, felly mae'n gwestiwn pa mor ddibynadwy ydi'r data a ddefnyddir (9.30 y bore, 7 Hydref 1952). Ar ben hynny, mae gormod i'w

ddweud, byddai angen oriau di-ben-draw o ymchwil a gwaith dehongli, oherwydd mae siartiau'n llawn gwrth-ddwyediadau, fel ag y mae Mawrth yn llawn paradocsau. Ar ei gorau, mae Mawrth yn bendant ei ffordd, yn ddi-ildio, yn uniongyrchol ac yn anturus. Ar ei gwaethaf, mae'n fyrbwyll, yn ddiymnedd, yn ymosodol, ac yn rhy benderfynol o lawer. A hebddi, heb yr ysbryd anifeilaidd hwn, y reddf i oroesi, fyddai neb yn codi o'i wely.

Mae astrolegwyr yn cwyno heddiw fod eu cwsmeiriaid yn mynnu anwybyddu Mawrth a chanolbwyntio ar ddatblygu'r elfennau 'positif' yn eu siartiau, gan anghofio bod hynny'n golygu cydnabod presenoldeb Mawrth. Peth peryglus, medd Jung, oherwydd os ydym yn gwadu neu'n mygu rhywbeth ynom ni ein hunain, mi fydd pobl eraill yn siŵr o'i fynegi drosom. Yn ôl y theori Jungaidd, mi fydd ein llid yn cael ei gario gan eraill, fydd yn gweithredu fel sugnwyr llwch, gan amsugno a rhoi mynegiant i'r hyn sy'n arnofio eisoes yn yr awyr. Yn ôl Jung, yr hyn sydd yn chwyrlio o'n cwmpas yn y byd a'r cosmos ydi cyfanswm yr holl deimladau a'r emosiynau isymwybodol nas mynegwyd gennym. A digon gwir y cyhuddiad o wadu: er ein bod yn awyddus i ganolbwyntio ar Fenws a gwthio Mawrth o'r pictiwr, mae cymdeithas wedi ei mesmereiddio, serch hynny, gan drais yn ôl y dystiolaeth ynghylch y math o fideos a ffilmiau a gemau a gaiff eu gwylio a'u chwarae amlaf. Fel ym mhob dim, ymddengys mai'r hyn sydd yn y fantol ydi cydbwysedd, a'r hyn y mae sêr-ddewiniaeth yn ei ddysgu i ni ydi nad oes dim yn cadw ei gydbwysedd heb ei gynffon, a dim yn bodoli heb ei gysgod. □